

Cronfa Gymunedol Uchel Siryf Gwent

Meini Prawf Cyllid: Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol



Nod Cronfa Gymunedol Uchel Siryf Gwent yw darparu bywyd o ansawdd, mwy diogel a gwell i bobl Gwent trwy gefnogi mentrau a phrosiectau cymunedol sydd yn cefnogi pobl ifanc i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dyfernir grantiau mewn digwyddiad rhoi grantiau cyfranogol blynyddol ar 8 Mawrth 2025. Rhaid i grantïon llwyddiannus gytuno i drefnu ymweliad gan yr Uchel Siryf yn ystod blwyddyn ariannol 25/26, fel amod o'u dyfarniad grant.

Pa fath o brosiectau fydd yn cael eu cefnogi?

I fod yn llwyddiannus, rhaid i brosiectau ddangos sut mae eu gweithgareddau'n cyfrannu at un neu fwy o'r canlynol:

- darparu cefnogaeth i bobl ifanc sy'n berthnasol iddynt a'r heriau sy'n eu hwynebu yn y 2020au, gan gynnwys sefydlu ymddygiad digidol diogel trwy eu helpu i ddeall risgiau a pheryglon cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwyd;
- gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o effaith a chanlyniadau troseddau, gan gynnwys fandaliaeth, difrod troseddol, camddefnyddio alcohol a chyffuriau neu gam-drin sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a seiberfwlio;
- lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy greu cyfleoedd i bobl ifanc a allai fod yn gyflawnwyr ac yn ddiodefwrwr troseddau fel cam-drin ar y stryd, fandaliaeth a seiberfwlio;
- targedu achosion sylfaenol trosedd a mynd i'r afael â'r problemau sy'n gyrru pobl ifanc i droseddau;
- cynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol sy'n darparu mwy o gefnogaeth gymdeithasol, modelau rôl cadarnhaol a ffactorau amddiffynnol eraill i'w helpu i ddatblygu'n ddinasyddion da yn y dyfodol; a
- cefnogi diodefwrwr troseddau, gan gynnwys cam-drin domestig a chaethwasiaeth fodern, ac amddiffyn y bregus.

Grantiau ar gael

Grantiau am 1 flwyddyn

Gwahoddir grwpiau i wneud cais am grantiau o hyd at £5,000 i'w wario yn 2025-26 ar ystod o gostau a allai gynnwys:

- Treialu prosiect newydd
- Costau rhedeg rhaglen o weithgareddau
- Prynu offer a deunyddiau

Beth yw rhoi grantiau cyfranogol?

Mae rhoi grantiau cyfranogol yn golygu gosod penderfyniadau gwneud grantiau gyda'r gymuned leol. Mae'n galluogi pobl leol i benderfynu ar y ffordd orau i fynd i'r afael â materion lleol trwy ddewis cefnogi mentrau sy'n dangos atebion effeithiol orau i'r problemau sy'n wynebu cymunedau yng Ngwent.

Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent.

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i ddod i'n digwyddiad rhoi grantiau blynyddol ar 8 Mawrth 2025 yn Y Fenni. Bydd digwyddiad 2025 yn cael ei gynnal mewn lleoliad yn Ysgubor y Degwm, Priordy Santes Fair, Monk Street, Y Fenni, NP7 5ND. Gwnewch yn siwr bod cynrichiolydd o'ch sefydliad ar gael ar y dyddiad yma cyn gwneud cais.

Pwy all wneud cais?

Bydd y Gronfa yn cael ei defnyddio i gefnogi prosiectau ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.

Mae'r Gronfa ar agor i grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol ac elusennau lleol yng Ngwent (ardaloedd awdurdodau lleol Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chaerffili).

Byddwn yn blaenoriaethu sefydliadau ar lawr gwlad lle mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu prosiectau. Bydd prosiectau sydd wedi derbyn arian yn y gorffennol yn cael eu hystyried. Dylai prosiectau o'r fath ddangos sut y bydd cyllid parhaus yn eu helpu i atgyfnerthu neu wella effaith y prosiect. Nid oes angen seibiant o ddwy flynedd bellach ar ôl 3 blynedd o gyllid grant parhaus.

Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Bydd digwyddiad Uchel Siryf Eich Llais, Eich Dewis 2025 Gwent yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn 8 Mawrth 2025. Lleoliad: Ysgubor y Degwm, Priordy Santes Fair, Monk Street, Y Fenni, NP7 5ND.
- Rhaid i grantïon llwyddiannus gytuno i drefnu ymweliad gan yr Uchel Siryf yn ystod blwyddyn ariannol 25/26, fel amod o'u dyfarniad grant.
- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Rydym yn gobeithio gallu gwneud un grant tair blynedd y flwyddyn.

Bydd hyn yn cael ei benderfynu/dyfarnu gan y panel yn y digwyddiad gwneud grantiau cyfranogol ym mis Mawrth 2025. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth i gael eich ystyried ar gyfer hyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

